# Datganiad Busnes drafft ar gyfer y 3 wythnos nesaf a Phenderfyniadau'r Dirprwy Lywydd ar gyfer dydd Mawrth 20 Mawrth 2007

**Penderfyniadau**

**Ar Dydd Mawrth, Mawrth 20 2007 nid ystyriodd y Pwyllgor Busnes unrhyw eitemau o ddeddfwriaeth o dan Rheol sefydlog 24**

**Y Datganiad Busnes Drafft**

**Dydd Mawrth 27 Mawrth a dydd Mercher 28 Mawrth 2007**

**Dydd Mawrth 27 Mawrth 2007**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

**Datganiad Busnes (10 munud)**

**Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Bumed Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (30 munud)**

**Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Cymru) 1997 i gynyddu'r ffi am gynnal prawf llygaid o dan y GIG o £18.39 i £18.85 o 29 Mawrth 2007.

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

**Rheoliadau Hysbysiadau Marchnata Bwyd at Ddefnyddiau Maeth Penodol**

**(Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith yng Nghymru Erthyglau 9 ac 11 Cyfarwyddeb 89/398/EEC y Comisiwn fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 1999/41/EC. Eu prif bwrpas yw caniatáu i'r Asiantaeth Safonau Bwyd atal neu gyfyngu am gyfnod y fasnach mewn rhai bwydydd at ddefnydd maethol penodol (bwydydd *parnut)* nad ydynt yn rhwydd i'w gwahaniaethu oddi wrth fwyd i'w bwyta at ddiben cyffredin, sy'n peryglu iechyd pobl neu nad ydynt yn addas ar gyfer y defnydd maethol penodol a haerir. Gallai fwyd *parnut* fod yn fwyd y gellid ei ddefnyddio mewn deietau gyda chyfyngiadau ar ynni i golli pwysau neu ddibenion meddygol arbennig, gan gynnwys cynhyrchion arbennig fel bwydydd tiwb mewn ysbytai. Mae'r Rheoliadau hefyd yn parhau â'r trefniadau presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau roi gwybod i'r Asiantaeth Safonau Bwyd pan fyddant yn rhoi bwydydd *parnut* ar y farchnad am y tro cyntaf.

**Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000, er mwyn ystyried Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Maent yn darparu y bydd y Comisiynydd Plant yn cael ei benodi'n gan Brif Weinidog Cymru, fel y'i diffinnir o dan adran 46(1) Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ar ôl mis Mai 2007, yn hytrach na chan Brif Ysgrifennydd y Cynulliad, fel y'i diffinnir o dan adran 53(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a fydd yn penodi nes y penodir Prif Weinidog newydd.

**Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod gofynion statudol yn berthnasol i Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRUs) yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i ysgolion a gynhelir. Yn ogystal, maent yn tynnu ynghyd ofynion presennol ar gyfer arolygu ysgolion, o dan Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006, sy'n berthnasol i PRUs.

Maent hefyd yn dirymu Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) 1994 a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Diwygio)1996.

**Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007**

Mae’r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd 2006/37/EC, sy’n diwygio Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/46/EC. Mae’r diwygiad i’r Gyfarwyddeb yn gwneud newidiadau i’r Atodiad, sy’n rhestru’r fitaminau a’r mwynau a’u ffynonellau, y ceir eu defnyddio wrth weithgynhyrchu ychwanegion bwyd. Mae’n diwygio un o’r penawdau (‘folic acid’ i ‘folate’) a hefyd yn ychwanegu dwy ffynhonnell newydd o fitaminau a mwynau y ceir eu defnyddio wrth weithgynhyrchu ychwanegion bwyd (ffurf arall ar y fitamin ffolad a ffurf arall ar y mwyn haearn).

**Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007**

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 i gynyddu gwerth talebau i gyfrannu at dalu am gostau cyflenwi, cyfnewid neu atgyweirio sbectol, lensys cyffwrdd a chymwysiadau optegol eraill o 2.7%, sef o £49.20 i £50.50.

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Tâl ar Gyfer Personau sy'n Darparu Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu darpariaethau newydd at Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992, y mae eu hangen o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i lawer o'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chychwyn darpariaethau nas cychwynnwyd o'r blaen. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau polisi mewn perthynas â'r modd y telir personau am ddarparu gwasanaethau fferyllol o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau y gellir parhau i wneud taliadau'n gyfreithlon drwy'r Tariff Cyffuriau.

**Gorchymyn Traffig Ffordd (Ardal Barcio A Ganiateir Ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Fôn) 2007**

Bydd y Gorchymyn hwn yn galluogi Cyngor Sir Ynys Môn i orfodi cyfyngiadau parcio wedi'i dad-droseddoli yn Sir Fôn. Byddant yn berthnasol i bob ffordd gyhoeddus ac eithrio Cefnffordd yr A55, gan gynnwys ffyrdd ymuno ac ymadael. Bydd hyn yn golygu bod troseddau nad ydynt yn rhai ardystiadwy, fel parcio ar linellau melyn dwbl, yn cael eu gorfodi drwy gyfraith sifil yn hytrach na chyfraith trosedd. Felly, byddai'r ddyletswydd orfodi yn trosglwyddo o Heddlu Gogledd Cymru i'r Cyngor.

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru ac y byddant yn dilyn cyrsiau addysg uwch penodol ym mlwyddyn academaidd 2007/08. Maent yn disgrifio'r amodau y mae'n rhaid i'r myfyrwyr eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth, ynghyd â'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais a'r terfynau amser cysylltiedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006 a Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006.

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae tair haen yn perthyn i effaith y Rheoliadau hyn. Yn gyntaf, maent yn cynyddu’r cyfyngiadau cyfalaf a ddefnyddir mewn asesiadau costau preswyl ar gyfer chwyddiant drwy gynyddu’r cyfyngiad cyfalaf uchaf o £21,500 i £22,000 (cynnydd o 2.3%) a chynyddu’r cyfyngiad cyfalaf isaf o swm llawer uwch na chwyddiant, o £16,000 i £17,250 (cynnydd o 7.8%). Yn ail, mae’r Rheoliadau hyn yn adlewyrchu newidiadau penodol i fudd-daliadau sy’n gysylltiedig ag incwm drwy ddiystyru asesiadau costau preswyl, sy’n digwydd o 9 Ebrill 2007. Maent hefyd yn ceisio cyflwyno diwygiad i’r diystyru hwn mewn perthynas â budd-daliadau plant fel eu bod yn cael eu diystyru wrth gyfrifo incwm, heblaw mewn rhai amgylchiadau penodol. Yn olaf, maent yn cynyddu’r swm wythnosol y mae awdurdodau lleol i gymryd y mae ei angen ar y rheini mewn gofal preswyl at eu gofynion personol o £20.00 i £20.88 yr wythnos (cynnydd o 4.4%).

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio A Pheidio Â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cydgyfnerthu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1998 fel y'u diwygiwyd, ac yn cynyddu symiau'r terfynau cyfalaf sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r hawl i dreuliau teithio a pheidio â chodi tâl o dan y Rheoliadau hynny. Mae'r Rheoliadau'n adlewyrchu'r newidiadau i lawer o ddeddfwriaeth y GIG a wnaed yn Neddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2007. Maent hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau i system ffioedd y GIG, sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau'r GIG (Presgripsiynau am Ddim a Chodi

Tâl am Gyffuriau ac Offer) (Cymru) 2007, y mae disgwyl iddynt ddod i rym ar 1 Ebrill 2007.

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2007 (15 munud)**

Bydd y Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("y prif Reoliadau") mewn perthynas â thrin premiymau, disgownt a llog ar fenthyciadau a roddir, yng nghyfrifon awdurdodau lleol ac am gyfnod dros dro i beidio â gofyn i awdurdodau lleol glustnodi darpariaeth ar gyfer ôl-ddyledion tâl cyfartal nes eu bod yn barod i dalu'r ôl-ddyledion hyn.

**Cynnig i drafod y 4 eitem ganlynol gyda'i gilydd, ond gyda phleidlais ar wahân (30 munud)**

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007**

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi mewn grym adrannau o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 nas cychwynnwyd yn dilyn Cydsyniad Brenhinol. Hynny yw, y rhan fwyaf o'r adrannau o 1 i 60, yn ogystal ag adrannau 62 i 66 ac Atodlenni 1, 2, 3 a 4. Bydd y Gorchymyn hwn yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno Rheoliadau a Chodau Ymarfer o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Anffurfio (Gweithdrefnau A Ganiateir) (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn creu rhestr o eithriadau o'r gwaharddiad ar anffurfio anifeiliaid fferm ac anifeiliaid eraill a nodwyd yn adran 5 Deddf Lles Anifeiliaid 2006; o dan y pwerau a grëwyd yn adran 5(4). Bydd y Rheoliadau yn cydgrynhoi arferion fferm mewn perthynas ag anifeiliaid, ac yn sicrhau bod y gofynion ar gyfer diogelu anifeiliaid anwes yn cyd-fynd â'r rheini a bennwyd eisoes ar gyfer anifeiliaid fferm.

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tocio Cynffonnau Cwn Gwaith (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu bod cwn gwaith yn cael eu heithrio o adran 6 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2006, sy'n gwahardd rhag tocio cynffonnau cwn am resymau cosmetig. Bwriedir iddynt weithredu pan allai ci a gâi anaf wrth weithio gael mwy o boen a dioddefaint na'r boen a gâi petai ei gynffon wedi'i thocio pan oedd yn gi bach.

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r Offerynnau canlynol:

- Rheoliadau Lles Da Byw (Gweithrediadau Gwaharddedig) 1982;

- Rheoliadau Lles Da Byw (Gweithrediadau Gwaharddedig) (Diwygio) 1987; a

- pharagraffau 8 a 9 o Atodlen 3D a pharagraffau 19 i 26 o Atodlen 6 Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001,

a wnaed o dan adran 2 Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968. Mae cynnwys yr Offerynnau hyn yn cael ei ddisodli gan ddarpariaethau yn Rheoliadau Anffurfio (Gweithdrefnau a Ganiateir) (Cymru) 2007.

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n dirymu Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) 1997 (hy y rhannau hynny sy'n berthnasol i Gymru), yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y Cyngor (CE) 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo o fewn yr UE, i'r UE ac o'r UE. Bydd gofyn bod caniatâd gan bob cludwr sy'n teithio dros 65 cilomedr at ddibenion masnachol, a bod pob cerbyd a ddefnyddir ar gyfer teithiau o fwy na 8 awr yn cael ei archwilio a'i gymeradwyo. Mae'r Rheoliad yn disodli Cyfarwyddeb y Cyngor 91/628, gyda'r nod o atgyfnerthu'r darpariaethau sy'n gysylltiedig â lles da byw wrth eu cludo ar daith o fwy na 8 awr. Nod y Rheoliad yw sicrhau safonau lles uchel a sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael eu trin heb greulondeb.

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Gofynion Caniatâd Awdurdodau Lleol) (Cymru a Lloegr) 2007 o dan Rheol Sefydlog 26 (15 munud)**

Mae’r Gorchymyn hwn yn cynnig gwneud awdurdodau lleol yn fwy atebol i’r cymunedau a wasanaethir ganddynt a lleihau biwrocratiaeth a rheolaethau diangen drwy ddiddymu deddfwriaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ofyn am ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru ac, mewn un achos, y Twrnai Cyffredinol, i weithredu. Mae gwella gwasanaethau cyhoeddus yn un o’r prif flaenoriaethau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gan fod y Gorchymyn yn ymwneud â

dyletswyddau a phwerau awdurdodau lleol, mae’r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) (cyn Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog) yn arwain ar y ddeddfwriaeth. Gan fod y ddeddfwriaeth yn cwmpasu Cymru, mae angen caniatâd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn yr Awdurdod Ydau Cartref (Cyfradd Ardollau) 2007 o dan Rheol sefydlog 25 rhan 3 (15 munud)**

Mae’r Gorchymyn hwn yn pennu cyfradd yr ardollau y gall yr Awdurdod Ydau Cartref (HGCA) eu codi ar dyfwyr a phroseswyr ydau yn y DU am flwyddyn o 1 Gorffennaf 2007 tan 30 Mehefin 2008. Mae’r refeniw a gynhyrchir yn galluogi’r HGCA ymgymryd â gweithgareddau ymchwil a datblygu ar gyfer y diwydiant. Ni chynigir unrhyw newidiadau i gyfraddau’r ardollau am y flwyddyn hon. Nid yw’r cyfraddau wedi newid ers 1996.

**Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda’i gilydd, ond gyda phleidlais ar wahân (15 munud)**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) (Diwygio) 2007**

Mae Adran 40 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (sy'n cymryd lle adran 24 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002) yn darparu ar gyfer rhoi dyletswydd ar bob Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdod Lleol yng Nghymru i fynd ati ar y cyd i lunio a gweithredu strategaeth ar gyfer iechyd a lles eu poblogaeth leol, ac ystyried y strategaeth honno wrth arfer eu swyddogaethau.

Mae Rheoliadau Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2003, sydd ar waith ar hyn o bryd ac a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2003, yn disgrifio'r weithdrefn y dylai'r Byrddau Iechyd Lleol a'r Awdurdodau Lleol ei dilyn wrth lunio a gweithredu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer eu hardaloedd lleol.

Gan fod disgwyl i'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a

Lles nesaf gael eu datblygu ym mis Ebrill 2008, mae'r Rheoliadau a'r Canllawiau presennol yn cael eu diwygio. Bwriedir cyflwyno'r Canllawiau ar wahân o dan Reol Sefydlog 29 ochr yn ochr â'r Rheoliadau hyn. I ategu'r newidiadau hyn, ac adlewyrchu'r Canllawiau Comisiynu newydd ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol, bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud i ddiweddaru'r Rheoliadau presennol. Bydd y Canllawiau Comisiynu yn fodd i gryfhau'r broses o gomisiynu gwasanaethau iechyd drwy alluogi'r Byrddau Iechyd Lleol i sefydlu Unedau Comisiynu Rhanbarthol er mwyn cyfuno eu hadnoddau a'u harbenigedd i gomisiynu gwasanaethau gofal eilaidd. Y bwriad yw cyhoeddi'r Canllawiau Comisiynu ym mis Mawrth 2007.

**Cynnig i gymeradwyo’r Canllawiau ar gyfer y Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2007 o dan Rheol sefydlog 29**

Yn ôl adran 40 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (sy’n disodli adran 24 o Ddeddf Diwygio’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002) mae dyletswydd ar bob Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdod Lleol yng Nghymru i ffurfio a gweithredu strategaeth ar y cyd ar gyfer iechyd a lles ei boblogaeth leol, a thalu sylw i’r strategaeth honno wrth arfer eu swyddogaethau.

Mae adran 40(7) o Ddeddf 2006 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru tan fis Mai 2007) roi cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â’u strategaethau. Cyhoeddir y Canllawiau hyn i gefnogi’r ail gylch o Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a byddant yn adeiladu ar y ddwy ddogfen ganllaw ganlynol ac yn eu disodli: *Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles - Paratoi Strategaeth* a *Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles - Canllawiau Polisi* a gyhoeddwyd yn 2003 i lywio’r cylch gyntaf.

Diben y Canllawiau yw cynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol o baratoi Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Bydd y Canllawiau yn dangos effaith y newidiadau yn y Rheoliadau; yn rhestri’r newidiadau i’r polisi ers y cylch diwethaf, fel cyhoeddi’r *Cynllun Oes* (prif gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol o’r radd flaenaf erbyn 2015); yn dangos yn glir beth sydd ei angen; yn dangos y cysylltiad â strategaethau lleol eraill; yn pennu’r cyd-destun polisi, rolau a chyfrifoldebau’r holl randdeiliaid; a bydd yn rhoi amlinelliad o’r

broses a'r amserlen ar gyfer paratoi'r ddogfen derfynol.

**Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda'i gilydd, ond gyda phleidlais ar wahân (15 munud)**

**Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Opthalmig Cyffredinol (Lwfansau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Parhaus) (Cymru) 2007 o dan Rheol sefydlog 29**

Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn cyd-fynd â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Opthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2007 ac yn rhoi manylion i Fyrddau Iechyd Lleol ar sut i brosesu hawliadau am daliadau ar gyfer addysg a hyfforddiant parhaus a wneir gan optometryddion ac ymarferwyr meddygol opthalmig ar restri'r Byrddau Iechyd Lleol.

**Cynnig i gymeradwyo The National Health service (General Ophthalmic Services ) (Amendment) (Wales) (no2) Regulations 2007 o dan Rheol Sefydlog 24.2 7(iv)**

**Dadl ar Adroddiad Terfynol y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar Anghenion Addysgol Arbennig - Trefniadau Pontio (60 munud)**

**Dydd Mercher 28 Mawrth 2007**

**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (30 munud)**

**Cynnig i drafod y 3 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidlais ar wahân (15 munud)**

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) 2007**

Mae’r Gorchymyn hwn yn darparu cynllun pensiwn newydd i ddynion tân a gyflogir yn y gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru ac mae ar gael i’r rheini a ymunodd ag awdurdod tân ac achub ar 6 Ebrill 2006 neu wedi hynny. Mae’r cynllun pensiwn dynion tân newydd (NFPS) yn dod i rym ar 6 Ebrill 2006. Gall aelodau’r Cynllun Pensiwn Dynion Tân presennol, a gyflwynwyd ym 1992, drwy Orchymyn Cynllun Dynion Tân 1992 (Cynllun 1992) ddewis dod yn aelodau o’r cynllun pensiwn newydd a bydd ganddynt y dewis i drosglwyddo’r cynllun presennol i’r cynllun newydd. Mae Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) 2007 yn darparu cynllun pensiwn i ddynion tân rheolaidd, dynion tân wrth gefn a dynion tân gwirfoddol. Mae hyn yn ymestyn yr aelodaeth o aelodaeth Cynllun 1992, sydd ar gyfer ymladdwyr tân rheolaidd yn unig. Dim ond gweithwyr awdurdod tân ac achub a gyflogir yn y gwaith o ymateb i achosion gweithredol fydd yn gymwys i fod yn aelod, h.y. ymladdwyr tân, rheolwyr criw a rheolwyr gwylfa.

Bydd y Gorchymyn hwn yn ôl-weithredol o 6 Ebrill 2006, heblaw am Ran 13, a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2007, yn unol â’r gyfundrefn dreth newydd sydd wedi’i symleiddio ar gyfer pensiynau o ganlyniad i Ddeddfau Cyllid 2004 a 2005 ac yn unol â newidiadau a wnaed i bensiynau dynion tân mewn ardaloedd eraill yn y DU.

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Iawndal Dynion Tân (Cymru) 2007**

Mae Gorchymyn Cynllun Iawndal Dynion Tân (Cymru) 2007 yn cymryd yr elfen iawndal o Orchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân 1992 ac yn rhoi iawndal i ddynion tân sy’n marw neu’n cael eu hanafu wrth arfer eu dyletswyddau fel dynion tân. Bydd y cynllun yn ôl-weithredol o 1 Ebrill 2006.

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2007 (15 munud)**

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio’r Cynllun Pensiwn Dynion Tân presennol, a gyflwynwyd ym 1992, drwy Orchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân 1992 (Cynllun 1992), yn unol â’i rym yng Nghymru. Mae’r newidiadau yn bennaf yn sgil cyflwyno’r cynllun pensiwn newydd, a bydd y rhan fwyaf o ddarpariaethau yn dod i rym o 6 Ebrill 2006.

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu**

**Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007 (15 munud)**

Bydd y Rheoliadau hyn yn darparu'r fframwaith rheoliadol ar gyfer archwilio gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol bod gan bob awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaeth mabwysiadu datganiad o bwrpas sy'n nodi amcanion a nodau'r gwasanaeth a chanllaw i blant. Rhaid darparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n gyson â'r datganiad o bwrpas. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y bobl sy'n rheoli'r gwasanaeth ac ymddygiad y gwasanaeth, ei staffio, addasrwydd y gweithwyr, addasrwydd yr adeiladau a chwynion a chadw cofnodion.

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Ar Gyfer Aelodau) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer talu lwfansau i aelodau o Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub Cymru. Maent yn galluogi cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i gyflwyno cynlluniau lwfansau ac addasu cyfraddau lwfansau yn flynyddol. Maent yn cyflwyno, am y tro cyntaf, ganiatâd i awdurdodau lleol gadw yn ôl neu adennill lwfansau aelodau sydd wedi'u hatal a thalu lwfans i aelodau cyfetholedig (aelodau nas etholwyd - sef pobl nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod ond sydd yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor o fewn yr awdurdod ac y mae hawl ganddynt bleidleisio ar unrhyw gwestiwn y mae gofyn penderfynu yn ei gylch yng nghyfarfodydd y pwyllgorau neu'r is-bwyllgorau dan sylw). Maent yn darparu ar gyfer y trefniadau gweinyddol i dalu lwfansau. Mae'r Rheoliadau'n galluogi'r Cynulliad i sefydlu panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol er mwyn gwneud penderfyniadau ar uchafsymiau'r lwfansau sy'n daladwy gan yr awdurdodau, a phennu sut y dylid mynd ati i benodi panel o'r fath. Bydd y Rheoliadau hyn, yn y pen draw, yn dirymu ac yn disodli'r rhannau hynny o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau ar gyfer Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002, sy'n berthnasol i aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Cyn gwneud hynny, byddant yn diwygio'r rheoliadau hynny yn Rheoliadau 2002 mewn perthynas â chynghorau ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Pensiynau) (Cymru) 2003.

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 (Diwygiadau) 2007 o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) (15 munud )**

Mae angen y Gorchymyn hwn i roi grym i'r diwygiadau i'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub. Mae Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub yn

darparu bod yn rhaid i unrhyw ddiwygiadau arwyddocaol i'r Fframwaith gael eu gwneud drwy Orchymyn. Mae adran 21 a 62 o Ddeddf 2004 yn dweud bod yn rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru baratoi Fframwaith:

> y mae'n rhai iddo bennu blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer awdurdodau tân ac achub mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau;
>
> a all gynnwys canllawiau i awdurdodau tân ac achub mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau; ac
>
> a all gynnwys unrhyw fater arall sy'n ymwneud ag awdurdodau tân ac achub neu eu swyddogaethau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn eu bod yn briodol.

Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol adolygu telerau'r Fframwaith a gall eu diwygio o dro i dro. Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub dalu sylw i'r Fframwaith wrth gyflawni eu dyletswyddau.

**Dadl ar Dir Mynydd (60 munud)**

**Dadl ar Ryddid Gwybodaeth (45 munud)**

**Y ddadl fer (30 munud)**